

Tŷ Agored

Rhifyn 2 2022 Y Cylchgrawn ar gyfer **Tenantiaid a Lesddeiliaid y Cyngor**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ar 1 Rhagfyr
2022**

**MAE'R Ffordd
YR YDYCH CHI'N
RHENTU'N NEWID**

i denantiaid a landlordiaid



ERTHYGLAU

Y Ddeddf Rhentu Cartrefi - y cyfan y mae angen i chi ei wybod	1
Cystadleuaeth Arddio 2022	6
Llyfrgell Pethau Abertawe a Chaffi Atgyweirio Cymru	8
Ailgylchu	10

TENANTIAETH AC YSTAD

Newyddion am y gwasanaeth Byw'n Annibynnol	12
Sgamiau	13
Arolwg Boddhad Tenantiaid a Lesddeiliaid	14
Sesiynau galw heibio i denantiaid	15
Help gyda chostau byw	16
Hwb Ymwybyddiaeth Ynni	17
Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru 2022/23	18
Fy Nhai	18
Llais y Tenantiaid	19
Gwasanaethau cefnogi	20
Gwasanaeth Torri Gwair	21

CYNGOR CYFFREDINOL

Ydych chi wedi cael eich synhwyrdd carbon monocsid am ddim?	22
Allwn ni eich helpu?	22

MAE'R HOLL WYBODAETH YNG NGHYLCHGRAWN Tŷ AGORED YN GWIR WRTH FYND I'R WASG.

Croeso i Tŷ Agored

Croeso i'r rhifyn diweddaraf o Tŷ Agored. Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig am Ddeddf newydd o'r enw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a ddaw i rym ar 1 Rhagfyr 2022. Mae rhagor o fanylion ynghylch yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei olygu i chi yn y cylchgrawn, yn ogystal â rhai cwestiynau cyffredin. A wnewch chi gymryd yr amser i ddarllen drwy dudalennau 1 i 5 fel eich bod yn deall beth fydd y newidiadau. Am y rheswm hwn, rydym wedi anfon copi o Tŷ Agored i'r holl denantiaid a lesddeiliad, hyd yn oed os ydynt wedi dewis peidio â derbyn y cylchgrawn neu wedi gofyn i dderbyn copi digidol, gan ein bod am sicrhau bod yr holl denantiaid yn cael gwybodaeth lawn am y newidiadau. Caiff y rhifyn nesaf ei anfon yn y fformat dewisol arferol. Yn ystod 2023, byddwn yn symud i gopi digidol o'r cylchgrawn, felly rhowch wybod i ni drwy ffonio ☎ **01792 635045** os hoffech barhau i dderbyn copi papur.

Gwyddwn y bydd llawer ohonoch yn pryderu am y costau byw cyfredol. Ar dudalen 16 mae gennym rywfaint o wybodaeth ddefnyddiol a manylion amrywiaeth o sefydliadau a all gynnig cefnogaeth a chngor i chi. Mae gwybodaeth i'w chael hefyd ar dudalen 17-18 am yr Hwb Ymwybyddiaeth Ynni a Chynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru.

Yn olaf, ceir manylion ynghylch sut y gallwch gofrestru ar gyfer ein porth newydd i denantiaid y cyngor o'r enw 'Fy Nhai'. Drwy'r porth gallwch dalu'ch rhent a gwirio'ch balans yn ogystal â chadw golwg ar unrhyw atgyweiriadau rydych wedi rhoi gwybod amdanynt. Gallwch gael gwybod sut i gofrestru ar dudalen 18.

Rachel Cole, Golygydd

Cysylltiadau Defnyddiol

Golygydd - Rachel Cole	☎ 635045
Canolfan Gyswllt Atgyweiriadau	☎ 635100
Atgyweiriadau Brys y tu allan i Oriau Swyddfa	☎ 521500
Uned Cefnogi Cymdogaethau 24 awr	☎ 648507
Opsiyau Tai	☎ 533100
Canolfan Gyswllt yr Amgylchedd	☎ 635600
Ymholiadau Budd-dal Tai	☎ 635353

Swyddfa Dai'r Ardal Ganolog

Mae'r ARDAL GANOLOG yn cwmpasu ardaloedd tai Townhill a chanol y dref a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Townhill a Chanol y Dre.

✉ swyddfadai.ardalaganolog@abertawe.gov.uk ☎ **01792 513900**

Swyddfa Dai Ardal y Dwyrain

Mae ARDAL Y DWYRAIN yn cwmpasu ardaloedd tai Eastside a Threforys a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Treforys.

✉ swyddfadai.ardalydwyrain@abertawe.gov.uk ☎ **01792 601720**

Swyddfa Dai Ardal y Gogledd

Mae ARDAL Y GOGLEDD yn cwmpasu ardaloedd tai Blaen-y-maes a Phen-lan a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Blaen-y-maes.

✉ swyddfadai.ardalygogledd@abertawe.gov.uk ☎ **01792 534060**

Swyddfa Dai Ardal y Gorllewin

Mae ARDAL Y GORLLEWIN yn cwmpasu ardaloedd tai Gorseinon, West Cross a Sgeti a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Hwb Llyfrgell Gorseinon a Swyddfa Dai Sgeti.

✉ swyddfadai.ardalygorllewin@abertawe.gov.uk ☎ **01792 897700**

Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat arall e.e. print bras, Braille, disg neu ddull arall, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai ☎ 01792 635045 neu ewch i'n gwefan

🌐 www.abertawe.gov.uk/tai neu e-bostiwrch

✉ tai@abertawe.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

Gweithio gyda'n gilydd

i roi cartref diogel i bawb

Y Ddeddf Rhentu Cartrefi - y cyfan y mae angen i chi ei wybod

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn gyfraith newydd sy'n cael ei chyflwyno gan Lywodraeth Cymru ar 1 Rhagfyr 2022 ac mae'n effeithio ar bob tenant a landlord yn y sector rhentu cyhoeddus a phreifat yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Abertawe fel eich landlord a chi fel ein tenant.

Bydd y Ddeddf yn gwella'r ffordd y mae pobl yn rhentu, yn rheoli ac yn byw mewn cartrefi sy'n cael eu rhentu ledled Cymru.

Does dim angen i chi boeni

Y cyngor fydd eich landlord o hyd a byddwch yn parhau i dderbyn yr un gwasanaeth tai ag yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd. Byddwch yn dal i allu byw yn eich cartref, byddwch yn dal i dalu rhent, a byddwn yn dal i wneud eich atgyweiriadau ac yn gofalu am eich stadau a'ch ardaloedd cymunedol. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau tai eraill i baratoi ar gyfer y newidiadau, a bydd ein staff yn gweithio'n galed i sicrhau bod y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith mor ddiffwdan â phosib.

Mae'r cylchlythyr hwn yn nodi'r pethau pwysig y mae angen i chi eu gwybod a'i nod yw ateb

Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru yma:

www.llyw.cymru/rhentu-cartrefi-mae-cyfraith-tai-yn-newid



unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Os nad yw eich cwestiwn wedi'i ateb neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

- E-bostiwrch ni yn ✉ tai@abertawe.gov.uk
- Ffoniwch Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid y Cyngor, Alison Winter, ar ☎ **01792 635043**
- Siaradwch â'ch Swyddog Cymdogaeth neu'ch Swyddog Byw'n Annibynnol (Warden Lloches)

**P'un ag ydych yn
landlord neu'n
denant mae'n
bwysig eich bod
yn gwybod beth
mae'r newidiadau
yn ei olygu i chi**

Beth yw'r newidiadau?

Y cyngor yw eich landlord o hyd a byddwn yn rhoi 'contract meddiannaeth' i chi a fydd yn disodli eich cytundeb tenantiaeth.

Mae dau fath o contract meddiannaeth wedi'u creu o dan y gyfraith newydd:

- 1. Contract diogel:** bydd hwn yn cymryd lle'r cytundebau tenantiaeth diogel a roddwyd gan y cyngor. Bydd hefyd yn cymryd lle tenantiaethau sicr a roddwyd gan Gymdeithasau Tai.
- 2. Contract safonol:** mae hyn yn effeithio ar denantiaid mewn llety rhent preifat ond bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y cyngor a chymdeithasau tai mewn rhai amgylchiadau.

Rhaid i'ch contract meddiannaeth gael ei nodi mewn 'datganiad ysgrifenedig'. Rhoddodd y cyngor gytundeb tenantiaeth ysgrifenedig ac amodau tenantiaeth i chi (eich llyfryn coch) pan wnaethoch symud i mewn am y tro cyntaf, ond mae'r gyfraith newydd yn golygu y byddwn yn anfon contract meddiannaeth newydd atoch, a rhaid iddo gynnwys y canlynol:

Materion allweddol: Er enghraifft, enw'r landlord a deiliad/deiliaid y contract a chyfeiriad yr eiddo.

Telerau Sylfaenol: mae'r rhain yn cwmpasu rhannau pwysicaf y contract, gan gynnwys sut mae'r landlord yn cael meddiant a dyletswyddau o ran atgyweiriadau.

Telerau Atodol: mae'r rhain yn ymdrin â'r materion mwy ymarferol o ddydd i ddydd. e.e. y gofyniad i hysbysu'r cyngor os yw'r eiddo yn mynd i gael ei adael yn wag am bedair wythnos neu fwy.

Telerau Ychwanegol: mae'r rhain yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion eraill, e.e. rheol sy'n ymwneud â chadw anifeiliaid anwes.

Sut bydd hyn yn effeithio arnoch chi fel tenant y cyngor?

- Does dim angen i chi boeni. Bydd eich hawl gyfreithiol i fyw yn eich cartref yn aros yr un fath ac ni fydd yn rhaid i chi symud cartref.
- Byddwch yn parhau i dderbyn yr un gwasanaeth tai gan y cyngor.

- Bydd tenantiaid yn dod yn ddeiliad contract.
- Bydd cytundebau tenantiaeth yn dod yn gontractau meddiannaeth.
- Ni fydd yn rhaid i chi dalu mwy o rent - ar wahân i'r cynnydd rhent blynyddol arferol, a bennir gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd y cyngor bellach yn cael ei adnabod fel 'landlord cymunedol', newid o'r term 'landlord cymdeithasol'.
- Bydd hawliau olynu'n cael eu cynyddu - os ydych yn rhannu'ch cartref, caniateir dau olynydd i'r contract, er enghraifft, gŵr neu wraig wedi'i ddilyn gan aelod o'r teulu. Yn ogystal, bydd hawl olynu newydd i ofalwyr yn cael ei chreu.
- Cyd-gontractau - gellir ychwanegu deiliaid contract at gontractau meddiannaeth neu eu dileu oddi arnynt heb orfod dod ag un contract i ben a dechrau un arall. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws rheoli contractau ar y cyd ac yn helpu dioddefwyr cam-drin domestig drwy ganiatáu i'r cyflawnwr gael ei dargedu i'w droi allan heb effeithio ar gontract y dioddefwr.

Yr hyn y mae angen i chi ei wneud

Does dim angen i chi wneud unrhyw beth yn awr. Ond bydd angen i chi ymgyswrtio â'ch contract meddiannaeth newydd pan fydd yn cyrraedd a'i gadw'n ddiogel fel y gallwch gyfeirio ato pan fydd angen. Gallwch hefyd gael cip ar y canllawiau gwybodaeth a gwyllo'r fideo ar wefan Llywodraeth Cymru. 📄 www.llyw.cymru/rhentu-cartrefi-mae-cyfraith-tai-yn-newid

Bydd y gyfraith newydd yn gymwys yn awtomatig o 1 Rhagfyr 2022, ond bydd tenantiaid presennol yn derbyn eu contractau meddiannaeth newydd o fewn chwe mis i 1 Rhagfyr 2022 a bydd tenantiaid newydd (deiliaid contract) yn ymrwmo i gontract meddiannaeth newydd o'r dyddiad hwn ymlaen.

Gweithio gyda'n gilydd

i roi cartref diogel i bawb

Cwestiynau Cyffredin

Dyma rai cwestiynau cyffredin i'ch helpu i ddeall y newidiadau.

Beth yw contract meddiannaeth?

Dyma'r enw newydd ar gyfer eich cytundeb tenantiaeth.

A oes unrhyw beth y mae angen i mi ei wneud?

Yr unig beth y mae angen i chi ei wneud yw darllen eich contract pan fyddwch yn ei dderbyn ac ymgyswddo â'ch hawliau a'ch cyfrifoldebau.

Ai'r cyngor fydd fy landlord o hyd?

Ie. Y cyngor fydd eich landlord o hyd.

A fyddaf yn dal i gael fy ngalw'n denant?

Mae'r gyfraith yn newid tenant i ddeiliad contract, felly dyma sut y cyfeirir atoch mewn dogfennaeth ffurfiol. Fodd bynnag, caiff y gair tenant ei ddefnyddio o hyd yn anffurfiol.

A fydd yn rhaid i mi symud tŷ?

Na fydd. Ni fydd y newid hwn yn golygu bod yn rhaid i chi symud tŷ. Nid effeithir ar eich hawl i aros yn eich eiddo.

A fydd fy rhent yn cynyddu?

Na fydd. Ni fydd hyn yn effeithio ar swm y rhent rydych yn ei dalu. Bydd rhenti cynghorau yn parhau i gynyddu yn unol â Pholisi Rhenti Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

A fydd hyn yn effeithio ar fy mudd-daliadau lles?

Na fydd. Ni fydd unrhyw effaith ar eich budd-daliadau os ydych yn derbyn unrhyw un.

A fydd yn rhaid i mi lofnodi contract meddiannaeth newydd?

Na fydd. Pan fyddwch yn derbyn eich contract

newydd, y cyfan y mae angen i chi ei wneud yw ymgyswddo â'ch hawliau a'ch cyfrifoldebau.

Pryd y byddaf yn derbyn fy nghontract meddiannaeth newydd?

Bydd tenantiaid presennol yn derbyn eu contractau meddiannaeth newydd o fewn chwe mis i 1 Rhagfyr 2022 a bydd tenantiaid newydd (deiliaid contract) yn lofnodi contract meddiannaeth newydd o'r dyddiad hwn. Ni waeth pryd y byddwch yn derbyn eich contract ysgrifenedig, bydd y rheolau newydd yn berthnasol i bawb o 1 Rhagfyr 2022.

A fydd hyn yn effeithio ar y gwasanaethau tai rwy'n eu derbyn?

Na fydd. Ni fydd unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau tai a gewch o ganlyniad i'r gyfraith newydd. Bydd y staff Tai yr ydych yn delio â hwy yn aros yr un fath.

A fydd yn haws i chi fy nhroi allan?

Na fydd. Mae eich hawl i fyw yn eich cartref yn aros yr un fath. Dim ond os byddwch yn gwneud rhywbeth i dorri telerau eich contract, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ôl-ddyledion rhent difrifol y gallwch gael eich troi allan.

Faint o rybudd y bydd yn rhaid i mi ei roi os wyf am ddod â'r contract i ben?

Rhaid i chi roi o leiaf 4 wythnos o rybudd i'r cyngor os ydych yn dymuno dod â'ch contract i ben.

Alla' i gael tenantiaeth ar y cyd?

Gallwch. Mae'r gyfraith newydd yn ei gwneud yn haws ychwanegu eraill at gontract meddiannaeth neu eu dileu gan na fydd angen dod ag un contract i ben mwyach a dechrau un arall.

Os ydych yn gyd-denant byddwch yn awr yn cael eich galw'n ddeiliad contract ar y cyd.

A fydd fy mhriod/fy mhlentyn/ aelod o'm teulu yn gallu etifeddu fy nhenantiaeth?

Bydd. Mae'r gyfraith newydd yn gwella hawliau olynu. Mae'r rhain yn nodi pwy sydd â'r hawl i gymryd drosodd y contract meddiannaeth a dod yn ddeiliad y contract ar ôl i ddeiliad presennol y contract farw.

Os ydych yn rhannu'ch cartref, caniateir dwy olyniaeth i'r contract. Er enghraifft, priod a ddilynir gan aelod arall o'r teulu.

Mae hawl olynu newydd i ofalwyr yn cael ei greu os yw'r gofalwr yn bodloni meini prawf penodol, gan gynnwys ei fod wedi bod yn byw gyda deiliad y contract am o leiaf 12 mis fel ei brif gartref.

Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes wedi olynu i denantiaeth?

Os gwnaethoch olynu i denantiaeth cyn i'r gyfraith newydd ddod i rym fel priod neu bartner sifil, neu aelod arall o'r teulu, cewch eich ystyried yn 'olynydd â blaenoriaeth'. Mae hyn yn golygu y gall fod olyniaeth bellach, ond nid yn fwy na hynny.

Os gwnaethoch olynu fel aelod arall o'r teulu cewch eich ystyried yn 'olynydd wrth gefn' ac ni all fod unrhyw olyniaeth bellach.

A fyddwch yn gallu fy helpu os bydd gennyf broblemau gyda'm cymdogion?

Byddwn. O dan y gyfraith newydd rhaid i bob contract meddiannaeth gynnwys amod ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall. Os bydd deiliad contract yn torri'r amod hwn, gall y cyngor gymryd camau i atal yr ymddygiad rhag parhau.

Bydd y cyngor yn parhau i ddarparu'r un gwasanaethau cymorth i ddeiliaid contract sydd wedi profi ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy'r Uned Cefnogi Cymdogaeth, y Tîm Cefnogi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Swyddogion Cymdogaeth.

Gweithio gyda'n gilydd

i roi cartref diogel i bawb

Ydw i'n gallu gwneud gwaith atgyweirio yn yr un ffordd?

Gallwch. Gallwch barhau i roi gwybod am waith atgyweirio drwy'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau neu ar-lein yma

📞 www.abertawe.gov.uk/caisamwellacartref

Yn ystod oriau swyddfa: 📞 01792 635100

Dydd Llun - Dydd Iau 8.30am - 5.00pm

Dydd Gwener 8.30am - 4.30pm

Bydd y gwasanaeth atgyweirio brys y tu allan i oriau arferol yn aros yr un fath.

Y tu allan i oriau swyddfa: 📞 01792 521500

Dydd Llun - Dydd Iau 5.00pm - 8.30am

Dydd Gwener 4.30pm - Dydd Llun 8.30am

Alla' i brynu fy eiddo?

Na chewch. Diddymwyd yr Hawl i Brynu gan Lywodraeth Cymru yn 2018 a chyn hynny cafodd ei atal yn Abertawe o fis Rhagfyr 2014. Nid yw'r gyfraith newydd wedi newid hyn.

Alla' i wneud cais i gyfnewid o hyd?

Gallwch. Gallwch gysylltu â'ch Swyddog Cymdogaeth yn yr un modd i drafod cyfnewid.

Alla' i barhau i drefnu cyfnewid drwy gytundeb?

Gallwch, ond mae'n rhaid i chi ofyn ein caniatâd cyn i chi wneud hynny.

A fydd hawl gennyf wneud gwelliannau i'm cartref?

Mae gennyh yr hawl i wneud gwelliannau i'ch cartref ar yr amod bod gennyh ein cytundeb ysgrifenedig cyn gwneud y gwaith. Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio a rheoliadau adeiladu arnoch hefyd.

Alla' i gael lletywr?

Gallwch. Os ydych yn ddeiliad contract diogel, rydych yn parhau i fod â'r hawl i gael lletywr

heb ofyn ein caniatâd ar yr amod nad yw hyn yn achosi gorlenwi statudol. Rhaid i chi roi gwybod i ni yn ysgrifenedig.

Mae lletywr yn rhywun sy'n byw yn eich cartref ond nid oes ganddo hawl unigryw i unrhyw un rhan ohono. Bydd yn derbyn rhyw fath o wasanaeth gennyh chi fel coginio neu lanhau.

Mae'r Ddeddf Rhentu Cartrefi yn gwella cyflwr eiddo a rentir. Sut bydd hyn yn digwydd?

Mae'r gyfraith newydd yn nodi bod yn rhaid i bob eiddo fod yn ddiogel ac yn addas i bobl fyw ynddo. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheolau ar gyfer hyn o'r enw Rheoliadau Ffitrwydd i Fod yn Gartref.

Nod y rheoliadau hyn yw sicrhau bod landlordiaid yn cynnal a chadw eiddo'n briodol a'u bod yn ddiogel i fyw ynddynt.

Mae hyn yn cynnwys gosod larymau mwg gwifredig, synwryddion carbon monocsid a chynnal profion diogelwch trydanol rheolaidd. Mae'r rhain i gyd yn bethau y mae'r cyngor yn eu gwneud ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw bryderon am gyflwr eich

eiddo, cysylltwch â'ch Swyddog Cymdogaeth neu rhowch wybod am waith atgyweirio drwy'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau.

Dros y blynnyddoedd diweddar mae'r cyngor wedi cyflwyno rhaglen i osod synwryddion carbon monocsid. Os nad ydych wedi elwa o'r cynllun hwn eto, bydd swyddogion y cyngor yn ymweld â chi dros y misoedd nesaf i sicrhau bod gennych yr hyn sydd ei angen arnoch.

Alla' i gael anifail anwes yn fy eiddo?

Fel ar hyn o bryd, mae'n rhaid i chi ofyn ein caniatâd yn gyntaf. Ni wrthodir rhoi caniatâd os ystyrir bod eich cais yn rhesymol.

A fydd dogfen hawdd ei darllen ar gael i'm helpu i ddeall y jargon?

Bydd. Gallwch ddod o hyd i ganllaw Hawdd ei Ddarllen ar gyfer y Ddeddf ar wefan Llywodraeth Cymru: www.cymru/tenantiaid-mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi-hawdd-ei-ddeall

Mae gwybodaeth hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill. www.llyw.cymru/rhentu-cartrefi-canllawiau-mewn-ieithoedd-eraill

Os oes angen help arnoch i gyrchu'r wybodaeth hon, cysylltwch â ni a byddwn yn eich helpu.

Sut bydd y Ddeddf Rhentu Cartrefi yn effeithio arnaf os wyf yn lesddeiliad?

Os ydych yn lesddeiliad sy'n byw yn eich eiddo prydlesol eich hun ar hyn o bryd, nid yw'r newidiadau'n cael unrhyw effaith arnoch a does dim angen i chi wneud dim byd arall.

Os ydych yn lesddeiliad sy'n rhentu'ch eiddo, **bydd** y newidiadau'n effeithio arnoch gan fod y Ddeddf yn berthnasol i unrhyw un sy'n landlord.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i landlordiaid i'ch helpu i gydymffurfio â'r gyfraith newydd. Gan fod cymaint o wybodaeth gymhleth am y Ddeddf newydd, a'i goblygiadau cyfreithiol, fe'ch cynghorir i ddarllen y canllawiau sydd ar gael. Maent ar gael ar wefan Rhentu Cartrefi Llywodraeth Cymru:

www.llyw.cymru/landlordiaid-mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi

Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio Rhentu Doeth Cymru i rannu gwybodaeth a diweddariadau ar y Ddeddf â landlordiaid yn y sector rhentu preifat. Ers mis Tachwedd 2015, mae'n ofyniad cyfreithiol i bob landlord sydd ag eiddo sy'n cael ei rentu'n breifat ar denantiaeth ddomestig yng Nghymru gofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru.

Cynghorir landlordiaid hefyd i ddewis derbyn e-byst Rhentu Doeth Cymru i sicrhau eu bod yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y caiff ei rhyddhau.

Gellir cael rhagor o wybodaeth yma:

www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/newyddion/

Cystadleuaeth Arddio 2022

Unwaith eto eleni, roedd safon uchel y cystadleuwyr ar gyfer Cystadleuaeth Arddio 2022 wedi creu argraff dda ar y beirniaid. Yn ogystal â'n cystadleuwyr rheolaidd, roedd yn dda gweld cystadleuwyr newydd yn cymryd rhan yn nifer o'r categorïau fel Yr Ardd Ffordd o Fyw Orau a'r Ardd Blodau Gwylt Orau.

Nid yw ffotograffau o erddi'r cystadleuwyr buddugol yn cyfleu harddwch y gerddi, y defnydd clyfar o le sy'n aml yn gyfyng, na'r syniadau hynod! Rydym yn gobeithio y bydd y gerddi'n ysbrydoli tenantiaid hen a phresennol i gystadlu yng nghystadleuaeth arddio'r flwyddyn nesaf.

Fel y gwelwch o'r ceisiadau buddugol ar gyfer y wobwr Defnydd Orau o Le Bach a'r Ardd Eco Orau, does dim rhaid i chi gael gardd fawr na gwario llawer o arian i greu rhywbeth arbennig!

Roedd y categori newydd, Y Blodyn Haul Gorau, wedi codi gwên ar wynebau'r beirniaid yn arbennig, ac mae'n dangos bod categori i bawb mewn gwirionedd, ni waeth pa fath o eiddo rydych chi'n byw ynddo.

Felly diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran, llongyfarchiadau i'n holl enillwyr ac edrychwn ymlaen at weld eich gerddi y flwyddyn nesaf!



**Gardd Orau - 3edd wobwr:
Alfred Scott**

Dyma ddetholiad o luniau o erddi'r enillwyr...



Gardd Orau - Gwobr Taf: Geraldine Spencer



Gardd Orau - 2il wobwr: Stephen Rees

Ardd Fwyfadwy Orau: Andrea Evans



**Yr Ardd a
Drawsnewidiwyd
Orau: Andrea
Evans**

**Y defnydd gorau o le bach/
cyfyngedig: Jean Jenkins**



**Garddwr Newydd Gorau:
Leonard Nicholas**



**Yr Ardd Ffordd o Fyw
Orau: Anne Hopkins**



**Yr Ardd Eco Orau:
Patrick McCormack**



**Y Cyfadeilad Lloches
Gorau: Llys Talacharn**



**Y Blodyn Haul Gorau:
Aaron Brown**



**Yr Ardd Blodau Gwylt Orau:
Richard Russ**

Paratoi ar gyfer cystadleuaeth y flwyddyn nesaf

Os ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch ysbrydoli gan erddi'r enillwyr ac yr hoffech gymryd rhan yng nghystadleuaeth y flwyddyn nesaf, dechreuwch gynllunio'ch gwelliannau nawr a gwnewch yn siŵr eich bod yn barod ar gyfer y flwyddyn nesaf! Gall gwneud newidiadau bach wneud gwahaniaeth mawr!

Y gaeaf yw'r amser i dacluso'ch gardd - cael gwared ar sbwriel, clirio dail sydd wedi disgyn, cael gwared ar unrhyw chwyn a thocio perthi.

Tynnwch lun o'ch gardd fel y mae ar hyn o bryd a pharhewch i dynnu lluniau drwy gydol y flwyddyn wrth i chi wneud newidiadau - byddwch yn rhyfeddu at eich cynnydd a blwyddyn nesaf gallwch gystadlu dan y categori Yr Ardd a Drawsnewidiwyd Orau!

Os oes gennych unrhyw eitemau o gwmpas y cartref nad ydych yn eu defnyddio mwyach, peidiwch â'u taflu! Gallwch ailgylchu eitemau o gwmpas y cartref sydd gennych yn eich cypyrddau, fel poteli plastig, a'u paentio i greu potiau planhigion deniadol - y cyfan sydd ei angen arnoch chi yw eich dychymyg ac mae'r posibiladau'n ddiddiwedd - a'r flwyddyn nesaf, gallwch gystadlu dan y categori Yr Ardd Eco Orau!

Cadwch lygad ar ein tudalen Facebook a rhifynnau Tŷ Agored y dyfodol i gael cymorth a chyngor ar wella'ch gardd.


Edrychwch ymlaen at dderbyn eich cynnig i gystadlu yn 2023 a gallech ennill gwobr ariannol!

Llyfrgell Pethau Abertawe a Chaffi Atgyweirio Cymru

Ar hyn o bryd cynhelir 2 gynllun yn Abertawe ar gyfer yr holl breswylwyr, sy'n cynnig gwasanaeth benthyca eitemau defnyddiol am gost isel ac atgyweiriadau am ddim i nifer o bethau sydd wedi'u torri.

Llyfrgell Pethau

Mae'r Llyfrgell Pethau yng nghanolfan siopa'r Cwadrant yng nghanol y ddinas ger Eglwys y Santes Fair/mynedfa Whitewalls (ger HMV). Mae'n fenter benthyca cost isel newydd sy'n ceisio helpu pobl i fenthycu eitemau defnyddiol y gall fod eu hangen arnynt ar gyfer gwaith penodol yn unig, yn hytrach na'u prynu a pheidio â'u defnyddio eto. Gall aelodau dalu ffi fenthycu fach a defnyddio a dychwelyd eitem pan fyddant wedi gorffen ei defnyddio.



Mae'r llyfrgell ar agor bob dydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 10am a 4pm.

I weld pa eitemau sydd yn y llyfrgell, prisiau, cyfnodau benthyca ac os yw eitemau ar gael, gall cwsmeriaid bori drwy'r catalog ar-lein neu ymweld â'r llyfrgell ei hun.

Mae eitemau'n cael eu hychwanegu trwy'r amser i'w benthyca

📍 www.swansealibraryofthings.co.uk/

📍 www.facebook.com/SwanseaLibraryOfThings/

✉ info@swansealibraryofthings.co.uk

Library of Things
Swansea

Caffi Atgyweirio Cymru

Cynhelir digwyddiadau'r caffi atgyweirio gan wirfoddolwyr a fydd yn ceisio atgyweirio'r rhan fwyaf o bethau sy'n cael eu cyflwyno iddynt. Gall ymwelwyr ddod ag eitemau aelwyd sydd wedi'u difrodi neu eu torri i'w hatgyweirio neu i gael cyngor. Mae eitemau nodweddiadol yn cynnwys nwyddau trydanol (ac eithrio ffyrnau micro-don), technoleg, addurniadau, dillad, beiciau ar gyfer gwaith cynnal a chadw a chyngor sylfaenol, gemwaith a mwy. Mae gwirfoddolwyr y caffi atgyweirio wedyn yn rhoi cynnig ar atgyweirio'r eitemau. Anogir ymwelwyr i ymuno a dysgu sut mae eu heitemau'n cael eu hatgyweirio fel y gallant roi cynnig ar atgyweiriadau tebyg yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd cynhelir 2 gaffi atgyweirio yn Abertawe:

Canolfan yr Amgylchedd, Pier Street, Abertawe, SA1 1RY (yng nghanol y ddinas)

(does dim angen cadw lle)

Neuadd Gymunedol Clydach, Vardre Road, Clydach, SA6 5LP

(i gadw lle, ffoniwch Pam Cram ar ☎ **07790 546890**)

Gall cwsmeriaid gysylltu â'r caffi atgyweirio trwy Facebook neu Twitter gydag unrhyw ymholiadau cyn mynd ag eitem i gael ei hatgyweirio.



Maent hefyd bob amser yn chwilio am ragor o wirfoddolwyr, yn enwedig ar gyfer caffi atgyweirio newydd posib yng nghanolfan ailgylchu Llansamlet, felly os ydych chi'n adnabod unrhyw un a all fod â diddordeb, rhowch wybod iddynt!

📍 www.repaircafewales.org/

📍 www.facebook.com/repaircafewales/

Siop Ailddefnyddio
Trysorau'r Tip



Tip Treasures
Reuse Shop

www.abertawe.gov.uk/trysoraurtip
www.swansea.gov.uk/tiptreasures

PRYNWCH BUY
AILDDEFNYDDIWCH REUSE
ATGYWEIRIWCH REPAIR
RHOWCH DONATE

Canolfan Ailgylchu LLANSAMLET Recycling Centre

@ailgylchutawe @recycle4swansea
Ailgylchu dros Abertawe Swansea Recycles



ABERTAWWE

Daliwch ati,
CADWCH YR AILGYLCHU MAS!



Cofiwch
na chaniateir
ailgylchu yn
y sachau
du

Don't
forget
recycling is
banned from
black bags



SWANSEA

Keep it going,
KEEP RECYCLING OUT!

 @recycle4swansea
 Swansea Recycles

 Abertawe yn ailgylchu
Swansea recycles

 Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Cynllun Arian yn Ôl am Gewynnau golchadwy

Newidiwch i gewynnau golchadwy heddiw a bydd Cyngor Abertawe'n rhoi **£100** i chi tuag at y gost!

Pam Newid?

Lleihau Gwastraff! Yn yr amser y mae'n ei gymryd i hyfforddi plentyn i ddefnyddio'r poti bydd plentyn yn defnyddio oddeutu **5,000** o gewynnau tafladwy. Dyna **156** o sachau du yn mynd i safleoedd tirlenwi.

Gallwch Arbed Arian! Gallwch arbed hyd at **£500** y flwyddyn ar gewynnau tafladwy.

Dim Mwy o Frech Cewyn! Mae cewynnau golchadwy wedi'u gwneud o ffibrau naturiol felly ni fyddant yn peri cosi poenus i groen y babi.

Hawdd eu Defnyddio a'u Golchi! Mae felcro a stýds gwasgu yn golygu nad oes angen pin-nau ac mae modd golchi'r cewynnau yn y peiriant golchi.

Hwyl a ffasiynol! Maent yn dod mewn amrywiaeth o ddyluniadau a defnyddiau gwahanol.



Gwnewch gais heddiw!

Mae'r cynllun ar gael i holl breswylwyr Dinas a Sir Abertawe. Am restr lawn o'r amodau a thelerau ac i gyflwyno cais am y cynllun, ewch i www.abertawe.gov.uk/cewynnau

 @ailgylchutawe

 Ailgylchu dros Abertawe

 Abertawe yn ailgylchu
Swansea recycles

 Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Oes angen rhagor o sachau gwyrdd a leinwyr bwyd arnoch?

Gallwch ofyn i'r criwiau am y sachau hyn ar y diwrnod casglu drwy roi'r tag ailarchebu ar eich sachau gwyrdd neu fin gwastraff bwyd ar ymyl y ffordd.

Dyma'r ffordd fwyaf cyfleus a llesol i'r amgylchedd o gael sachau gwyrdd a leinwyr gwastraff bwyd.

Ydych chi'n cael trafferth cael sachau yn y ffordd yma?

E-bostiwch ✉ Ailgylchu.UCC@abertawe.gov.uk neu ffoniwch ☎ **01792 635600** fel y gallwn gallwn ymchwilio i'r broblem.

Newyddion am y gwasanaeth Byw'n Annibynnol

Pen-blwydd yn 100 yn Conway Court

Llongyfarchiadau i Eileen Doyle, Conway Court, Pen-lan a ddathlodd ei 100fed pen-blwydd yn ddiweddar gyda'i theulu a'i ffrindiau. Roedd Eileen wrth ei bodd yn derbyn cerdyn gan y Frenhines a'r Pab hefyd.



Dathlu'r Jiwbilî yng ngarddwest y Frenhines

Llongyfarchiadau i Mr Pelzer, Tŷ Dewi Sant, a wahoddwyd i Arddwest Jiwbilî'r Frenhines. Meddai Mr Pelzer, "Roedd yn bleser cael fy ngwahodd i fod yn rhan o ddathliadau'r Jiwbilî yn ôl ym mis Mehefin, yn enwedig gan fod y Frenhines wedi marw ers hynny. Cefais amser gwych."

Bu Heol y Gors a Thomas Evans House hefyd yn dathlu'r Jiwbilî gyda pharti. Meddai Debra Thomas, Swyddog Byw'n Annibynnol, "Roedd yn ddiwrnod gwych, roedd pawb wedi mwynhau. Trefnwyd y cyfan gan Mrs Susan Miller a Mr John Miller. Fe wnaethon nhw i gyd fwynhau'n fawr iawn ac roedd yn barti anhygoel."



Adnewyddu'r lolfeydd cymunedol

Mae'r 3 llun yn dangos y lolfa ar ei newydd wedd yn Gelli Gardens. Mae'n un o 6 lolfa sydd wedi'u hadnewyddu fel rhan o gynllun 5 mlynedd i adnewyddu pob lolfa gymunedol yn ein Cynlluniau Byw'n Annibynnol, gyda'n contractwr arbenigol Teal Living. Mae'r 5 arall sydd wedi'u hadnewyddu'n cynnwys Tirdeunaw, Penrhiw Court, Ffordd Aneurin, Thomas Evans House a Heol y Gors.

Mae cynlluniau eisoes ar y gweill i adnewyddu 3 lolfa arall y flwyddyn ariannol hon.

Grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Llongyfarchiadau i Heol y Gors a dderbyniodd y Pecyn Datblygu o'r Grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a gynhelir gan Cadwch Gymru'n Daclus. Meddai Debra Thomas, Swyddog Byw'n Annibynnol "Mae'r preswylwyr yn falch iawn ein bod wedi derbyn y grant hwn ac yn dilyn ymlaen o'r Pecyn Cychwyn, ac mae'r prosiect yn mynd o nerth i nerth". Mae'r Pecyn Datblygu yn adeiladu ar y Pecyn Cychwyn sy'n helpu prosiectau mwy, a mwy heriol i dyfu.



Grant Lles

Llongyfarchiadau i'r Tîm Byw'n Annibynnol a sicrhodd grant gan y Rhwydwaith Lles 50+ i leihau unigedd cymdeithasol ymhlith Tenantiaid Byw'n Annibynnol sydd wedi'i waethgu gan bandemig COVID-19. Mae tenantiaid wedi elwa o amrywiaeth o offer, gan gynnwys bowls dan do, gemau dan do eraill, celfi ar gyfer yr ardd ac offer garddio. Yn ogystal, maent wedi cael dosbarthiadau fel ioga cadair, sydd bellach yn mynd i barhau y tu hwnt i'r prosiect

Meddai'r Rheolwr Byw'n Annibynnol, Llinos Price, "Rydym wrth ein bodd ein bod wedi derbyn y Grant hwn, mae'r effaith a gafodd ar ein tenantiaid wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'n dda gweld pawb yn mwynhau manteision yr eitemau a brynwyd o'r cyllid.




Sgarniau ad-daliadau ynni

Byddwch yn ymwybodol o sgarn ad-daliad ynni newydd sy'n targedu aelodau o'r cyhoedd, gan bobl sy'n honni eu bod o'r Swyddfa Marchnadoedd Nwy ac Electroneg (Ofgem).

Mae twyllwyr yn anfon e-byst sy'n edrych fel rhai swyddogol at bobl yn esgus eu bod yn cysylltu ar ran y rheoleiddiwr ynni, Ofgem, ac yn gofyn iddynt am eu manylion banc. Mae'r e-bost yn addo arian oddi ar eu biliau ynni ac yn nodi y bydd aelwydydd yn derbyn gostyngiad o £200 ar eu biliau, a fydd yn cael ei dalu'n ôl dros 5 mlynedd. Mae'r e-bost yn gofyn i'r unigolyn ddilyn dolen fel y bydd yr arian yn cael ei dalu i'w gyfrif banc. Fodd bynnag, mae'n arwain at wefannau sydd wedi'u dylunio i ddwyn manylion personol ac ariannol.

Ni fyddai Ofgem, banciau na sefydliadau dilys eraill **byth** yn gofyn am fanylion drwy neges destun na thrwy e-bost. Os oes angen i chi wirio a yw'n neges ddilys, cysylltwch â'r cwmni'n uniongyrchol ond peidiwch â defnyddio unrhyw fanylion cyswllt o'r neges destun/e-bost rydych wedi'i derbyn/derbyn.

Os byddwch yn derbyn e-bost fel hyn, rhowch wybod i'r heddlu drwy roi gwybod i Action Fraud:  www.actionfraud.police.uk/welsh



Arolwg Boddhad Tenantiaid a Lesddeiliaid

Ychydig o fisoedd yn ôl, gofynnwyd i chi lenwi Arolwg Boddhad Tenantiaid a Lesddeiliaid er mwyn i ni glywed eich barn a'n helpu i wella'r gwasanaethau rydych yn eu derbyn.

Cymerodd 1,809 o denantiaid a lesddeiliaid ran yn yr arolwg

CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU



Mae **80%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan y cyngor.



Mae **71%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y ffyrdd yr ymdrinnir â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.



Mae **74%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar eich cymdogaeth fel lle i fyw ynddo.



Mae **75%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar safon gyffredinol eich cartref.



Mae **60%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y ffaith bod eich Ffioedd Gwasanaethau yn darparu gwerth am arian.



Mae **81%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon bod eich cartref yn ddiogel.



Mae **70%** ohonoch yn cytuno â'r datganiad "Rydw i'n ymddiried yn fy landlord".



Mae **51%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y ffordd y mae'r gwasanaeth yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.



Mae **47%** ohonoch yn fodlon ar nifer y cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae **57%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y ffaith ein bod ni'n gwranddo ar eich barn ac yn gweithredu arni.

Mae **45%** yn fodlon iawn neu'n eithaf bodlon ar y cyfleoedd i fynegi eu barn ar sut y caiff y gwasanaethau tai eu rheoli.



Mae **65%** ohonoch yn fodlon iawn ac yn eithaf bodlon ar y ffaith bod eich rhent yn darparu gwerth am arian.

Dyma'r hyn a ddywedoch wrthym:

Rydym yn cymryd eich adborth o ddifrif ac rydym wedi nodi 4 maes y mae angen i ni eu gwella:

- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cymdogaethau fel lleoedd i fyw
- Cyfleoedd i gymryd rhan
- Gwerth am arian

Rydym wedi cyflwyno'r canlynol:

- Swyddog Cymorth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dynodedig sy'n gweithio gyda staff Swyddfa Dai eich Ardal Leol i ymdrin ag achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyflym.

- Ymgysylltu a lefelau uwch o weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu, Cydlynwyr Ardaloedd Lleol, adran Diogelwch Cymunedol ac adrannau eraill y cyngor.
- Mae Swyddogion Cefnogi Cymdogaethau yn mynd i fwy o ddigwyddiadau cynnwys ac mae ganddynt fwy o bresenoldeb yn eich cymuned.

Mae nifer o fesurau rydym wedi eu cyflwyno'n ddiweddar mewn perthynas â rheoli stadau gan gynnwys y canlynol:

- Roedd gweithwyr Cefnogi Cymdogaethau yn bresennol ar gyfer mwy o ddigwyddiadau cynnwys ac yn cynnal gwiriadau lles.
- Mae cynlluniau gwaith gofal yn cael eu

hadolygu'n fwy rheolaidd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu canolbwyntio'n well ac yn fwy ymatebol.

- Mae mentrau ar y cyd yn cael eu trafod gyda Gwastraff, Ailgylchu ac Iechyd yr Amgylchedd i fynd i'r afael â gerddi llawn tyfiant.

Mae ymgynghoriadau wyneb yn wyneb bellach wedi ailddechrau a gallwch fynegi eich barn mewn ffordd sy'n addas i chi ac ar adeg sy'n gyfleus i chi.

Rydym wedi adolygu ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a'n Cynllun Gweithredu sy'n amlinellu sut rydym am ddatblygu ein hymgysylltiad â thenantiaid

a sut y byddwn yn gwneud hyn wrth symud ymlaen. Bydd hyn ar waith yn 2022.

Mae angen i ni roi ychydig mwy o wybodaeth i chi am sut rydym yn gwario incwm rhent megis ar waith atgyweirio a gwelliannau, adeiladau cartrefi newydd etc.

Diolch am lenwi'r arolwg a chymryd yr amser i'w ddychwelyd i ni; mae eich barn yn bwysig iawn i ni. Cynhelir yr Arolwg Boddhad nesaf yn 2023.

Llongyfarchiadau hefyd i'r tenantiaid lwcus sydd wedi ennill y gystadleuaeth.

Sesiynau galw heibio i denantiaid:

Os ydych yn byw ger Swyddfa Dai Ardal y Dwyrain neu'r Gorllewin, dewch i un o'n sesiynau galw heibio yn eich cymuned leol i;

- Gael sgwrs â staff y Swyddfa Dai am y materion sy'n bwysig i chi
- Trafod eich cyfrif rhent neu unrhyw ymholiadau ynghylch budd-daliadau
- Dod o hyd i gyfleoedd i gymryd rhan a chael dweud eich dweud am y gwasanaeth tai

Cynhelir sesiynau galw heibio Ardal y Gorllewin yng:

Nghanolfan Gymunedol West Cross

3 ac 17 Tachwedd 10am - 12pm

Cynhelir cymorthfeydd bob yn ail ddydd Iau ar ôl y dyddiadau hyn

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch:

✉ westarea.housingoffice@abertawe.gov.uk

Rhif ffôn ☎ **01792 897700**

Cynhelir sesiynau galw heibio Ardal y Gogledd yn:

Llyfrgell Pen-lan

4 Tachwedd 10am - 12pm

Cynhelir cymorthfeydd bob pythefnos ar ddydd Gwener ar ôl y dyddiad hwn

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

✉ northarea.housingoffice@abertawe.gov.uk

Rhif ffôn ☎ **01792 534060**

Cynhelir sesiynau galw heibio Ardal y Dwyrain yn:

Neuadd y Plwyf, St Thomas

1 a 15 Tachwedd 9.30am - 11.30am

Cynhelir cymorthfeydd bob pythefnos ar ôl y dyddiadau hyn

Canolfan Gymunedol Port Tenant, St Thomas

2 Tachwedd 10am - 12pm

Cynhelir cymorthfeydd bob 4 wythnos ar ôl y dyddiad hwn

Canolfan Gymunedol Gellifedw

2 Tachwedd 12pm - 2pm

Cynhelir cymorthfeydd bob pythefnos ar ôl y dyddiad hwn

Canolfan Gymunedol Bôn-y-maen, Bôn-y-maen

18 Tachwedd 12pm - 2pm

Cynhelir cymorthfeydd bob pythefnos ar ôl y dyddiad hwn

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch:

✉ eastarea.housingoffice@abertawe.gov.uk

Rhif ffôn ☎ **01792 601720**

Help gyda chostau byw

Rydym yn deall y gall costau byw cynyddol beri pryder, yn enwedig os ydych chi'n cael trafferth talu'ch biliau a/neu'ch rhent. Mae gennym adran benodol ar gyfer cymorth costau byw ar ein gwefan 🖱️ www.abertawe.gov.uk/helpcostaubyw?lang=cy ond mae hefyd ddigonedd o help a chefnogaeth arall ar gael i chi.

Biliau ynni

Un o'r prif bethau sy'n effeithio ar bawb yw'r cynnydd mewn biliau ynni. Mae nifer o bethau ymarferol y gallech fod yn eu gwneud o gwmpas y tŷ i geisio gostwng eich biliau. Dyma rai awgrymiadau:

1. Trowch eich thermostat i lawr 1 radd.
2. Diffoddwch y goleuadau mewn ystafelloedd nad ydych yn eu defnyddio a defnyddiwch fylbiau sy'n arbed ynni.
3. Peidiwch â gadael offer yn y modd segur - gallwch arbed hyd at £30 drwy ddiffodd eich offer wrth y wal pan nad ydych yn eu defnyddio.
4. Peidiwch â llenwi'r tegell â dŵr diangen.
5. Rhowch lwythi llawn yn eich peiriannau golchi a sychu oni bai fod gennych osodiadau hanner llwythi.
6. Peidiwch â gadael i dapiau ddiferu, yn enwedig tapiau dŵr poeth.
7. Cynheswch yr ystafelloedd rydych yn eu defnyddio yn unig a chaewch y drysau er mwyn cadw ystafelloedd yn gynnes.

Gall y newidiadau bach hyn wneud gwahaniaeth mawr i'ch biliau. Fodd bynnag, os ydych chi'n ei chael hi'n anodd talu'ch biliau ynni neu ychwanegu arian at eich mesurydd rhagdaledig, siaradwch â'ch cyflenwr ynni. Mae'n rhaid i'ch cyflenwr eich helpu i ddod o hyd i ateb a dylech geisio trafod cynnig sy'n gweithio i'r ddau ohonoch.

Mae rhestr o sefydliadau a all gynnig cymorth a chyngor ar gael ar ein gwefan 🖱️ www.abertawe.gov.uk/costauynni?lang=cy

Biliau dŵr

Os ydych chi'n cael trafferth talu eich bil dŵr, dylech gysylltu â'ch cyflenwr ar unwaith. Mae Dŵr Cymru'n

cynnig cymorth ariannol i rai cwsmeriaid, gyda hyd at £230 oddi ar eich bil dŵr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar eu gwefan 🖱️ www.dwrcymru.com/cy-gb/help-with-bills neu ffoniwch 📞 **0800 052 0145** i drafod eich opsiynau.

Trafferth talu'ch taliadau rhent

Os nad ydych yn gallu talu'ch rhent tai cyngor, cysylltwch â ni. Gallech fod yn gymwys am fudd-daliadau neu gymorth arall. I drafod eich opsiynau a chael gwybod pa gymorth sydd ar gael i chi, cysylltwch â'r Tîm Rhenti drwy e-bostio ✉️ Rhenti@abertawe.gov.uk neu drwy ffonio 📞 **01792 534094**

Banciau Bwyd

Os ydych chi'n cael trafferth prynu bwyd, mae help ar gael. Mae banciau bwyd ar gael ar draws Abertawe. Mae'r rhan fwyaf o fanciau bwyd yn defnyddio talebau a/neu system atgyfeirio, ond peidiwch â gadael i hyn eich rhwystro rhag defnyddio'r help hwn pan fyddwch mewn angen. Bydd yr asiantaethau sy'n gallu'ch helpu i gael taleb neu atgyfeiriad hefyd yn gallu'ch helpu drwy ddarparu cefnogaeth ychwanegol, gan gynnwys cael gafael ar gyngor ar fudd-daliadau a dyledion. Mae'r ap 'Hope in Swansea' yn ffordd ddefnyddiol o ddod o hyd i'r help sydd ar gael er mwyn cael gafael ar fwyd ar y diwrnod y mae ei angen arnoch. Mae rhagor o wybodaeth am fanciau bwyd ar gael ar ein gwefan

🖱️ www.abertawe.gov.uk/bancbwyd?lang=cy

Dyledion a phryderon ariannol

Y peth cyntaf i'w wneud os ydych chi'n cael trafferth gydag arian yw cael gwybod os ydych yn derbyn popeth y mae gennych hawl iddo. Os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys ar gyfer budd-daliadau,

defnyddiwch gyfrifiannell budd-daliadau annibynnol i wirio.

Os ydych yn pryderu am dalu'ch taliadau banc neu gerdyn credyd, dylech gysylltu â'ch darparwr gwasanaethau ariannol ar unwaith i weld pa gymorth y gallant ei roi i chi.

Mae cyngor ar ddyledion, gan gynnwys manylion ynghylch pwy sy'n gallu helpu, ar gael ar ein gwefan www.abertawe.gov.uk/cymorthgyddadyled?lang=cy

Sefydliadau eraill y gallwch gysylltu â nhw am help a chyngor:

Advicelink Cymru

Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw Advicelink Cymru, sy'n cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar amrywiaeth o bynciau fel:

- budd-daliadau lles
- dyled
- cyflogaeth
- addysg

- tai
- gwahaniaethu Ffoniwch ☎ **0800 702 2020**

Cyngor Age Cymru

Mae Cyngor Age Cymru'n cynnig gwasanaeth cefnogi cyfrinachol a diduedd am ddim. Gallant helpu pobl hŷn, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr a gweithwyr proffesiynol drwy roi gwybodaeth a chyngor ar faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn.

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch ☎ **0300 303 398** rhwng 9:00am a 4:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener neu e-bostiwch ✉ advice@agecymru.org.uk.

Cyngor ar Bopeth

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys arian, dyled a budd-daliadau. I siarad ag ymgynghorydd, ffoniwch ☎ **03444 77 20 20** (9am i 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener).

Hwb Ymwybyddiaeth Ynni



Mae'r cynllun a ariennir gan Gyngor Abertawe i helpu aelwydydd i leihau eu biliau ynni wedi'i ymestyn tan fis Mawrth 2023.

Mae Cyngor Abertawe wedi bod yn brif ariannwr yr Hwb Ymwybyddiaeth Ynni ers dechrau 2022. Mae'r gwasanaeth hwn, a ddarperir gan Ganolfan yr Amgylchedd, yn cynnig cyngor i breswylwyr Abertawe ar dalu eu biliau a sut i arbed ynni. Darparwyd y gwasanaeth hwn yn gyntaf ar Nelson Street yng nghanol y ddinas, ond yn ystod misoedd yr haf mae'r gwasanaeth wedi bod yn teithio ar draws y gymuned, gan ymddangos mewn llyfrgelloedd a banciau bwyd. Yn fuan bydd yn dychwelyd i ganol y ddinas, mewn lleoliad

gwahanol, a bydd yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth mewn nifer o leoliadau cymunedol ar draws y sir.

Felly, os oes angen cyngor arnoch ar dalu eich biliau ynni ac rydych am gael gwybodaeth am sut gallwch leihau faint o ynni a charbon rydych yn eu defnyddio, ewch i'r Hwb Ymwybyddiaeth Ynni i gael cyngor cyfrinachol am ddim.

I ddarganfod pryd a ble gallwch ymweld â'r Hwb, ewch i:

☎ www.environmentcentre.org.uk/switched-on

Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru 2022/23

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Cynllun Cymorth Tanwydd er mwyn rhoi cymorth i aelwydydd cymwys sy'n byw yn ardal Cyngor Abertawe i dalu eu biliau tanwydd.

Bydd angen i bawb sy'n credu eu bod yn gymwys wneud cais gan ddefnyddio'n ffurflen ar-lein a fydd ar gael tan ddydd Mawrth 28 Chwefror 2023 (5.00pm).

Gall aelwydydd cymwys sy'n byw yn Abertawe hawlio taliad untro o £200 gennym.

Does dim gwahaniaeth sut maen nhw'n talu am eu tanwydd, boed hynny drwy fesurydd talu ymlaen llaw neu ddebyd uniongyrchol, neu drwy dalu bil bob chwarter, a gellir hawlio'r £200 ni waeth a ydynt

yn defnyddio tanwydd ar y grid neu oddi arno.

Gall ymgeiswyr hawlio taliad cymorth tanwydd ar gyfer eiddo yng Nghymru, ar yr amod mai'r eiddo hwn yw eu prif breswylfa.

Mae'r taliad hwn yn ychwanegol at yr ad-daliad biliau ynni sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU a'r Taliad Tanwydd Gaeaf sy'n cael ei dalu fel arfer i bensiynwyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

📄 www.abertawe.gov.uk/cymorthtanwydd

Fy Nhai - Cofrestrwch heddiw!

Rydym yn falch o rannu Fy Nhai, sef ein porth ar-lein ar gyfer tenantiaid Cyngor Abertawe.

Sefydlwch gyfrif tai personol y gallwch ei ddefnyddio pan mae'n gyfleus i chi ac sy'n offeryn hawdd a defnyddiol er mwyn eich helpu i reoli'ch cyfrif rhent. Gallwch gael mynediad ato ar eich ffôn clyfar, eich tabled neu'ch cyfrifiadur yn unrhyw le.

Cofrestru / mewngofnodi:

📄 tai.abertawe.gov.uk

Gallwch gofrestru'n hawdd trwy ddilyn ein cyfarwyddiadau cam wrth gam. Bydd angen i chi roi eich:

- enw.
- cyfeiriad.
- dyddiad geni.
- rhif tenantiaeth.
- cyfeiriad e-bost.

Unwaith y byddwch wedi cofrestru, byddwn yn anfon cōd dilysu atoch sy'n caniatáu i chi fewngofnodi. Gallai hyn gymryd hyd at 2 ddiwrnod gwaith.

Byddwch yn gallu:

- talu'ch rhent.
- gweld balans eich rhent a'ch trafodion.
- lawrlwytho ac argraffu datganiadau rhent.
- cadw golwg ar unrhyw atgyweiriadau rydych wedi adrodd amdanynt.
- diweddarw'ch manylion personol.
- anfon negeseuon atom neu adrodd am faterion rheoli tai.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch, e-bostiwch:

✉ helen.davies@abertawe.gov.uk

✉ layton.jenkins@abertawe.gov.uk

Fel arall, gallwch alw heibio'ch Swyddfa Dai Ardal leol neu siarad ag aelod o'r fîm tai mewn cymhorthfa dai.



Llais y Tenantiaid

Fy enw i yw Alison Winter a fi yw eich Swyddog Cyfranogiad.

Dyma fy niweddariad rheolaidd am gyfranogiad tenantiaid yn Abertawe, lle dwi'n rhoi newyddion i chi oddi wrth grwpiau lleol a grwpiau ar draws y ddinas.



Cyfarfodydd Tenantiaid yn Dychwelyd

Drwy gydol y pandemig, cafodd ymgynghoriadau wyneb yn wyneb â thenantiaid eu hatal a symudwyd gweithgareddau ar-lein. O fis Gorffennaf 2022, mae ymgynghoriadau wyneb yn wyneb wedi aildechrau, a chynhaliwyd cyfarfod cyntaf Panel Ymgynghorol y Tenantiaid i gyflwyno tenantiaid i'r porth newydd, Fy Nhai. Dros y misoedd i ddod, bydd holl grwpiau'r ddinas a'r sir a grwpiau lleol yn dychwelyd.

Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cyfranogiad Tenantiaid

Mae'r Strategaeth Cyfranogiad yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu hyn yn manylu ar sut gall tenantiaid fod yn rhan ohonynt mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw. Bydd rhagor o wybodaeth am y strategaeth ar gael yn rhifyn nesaf Tŷ Agored.

Panel Ymgynghorol y Tenantiaid Porth 'Fy Nhai'

Cynhaliwyd dwy sesiwn yn y stiwdio gefn, Theatr y Grand, yn ystod mis Gorffennaf i denantiaid ddysgu mwy am y porth newydd sef 'Fy Nhai'. Bydd y porth newydd o'r enw 'Fy Nhai' yn caniatáu i chi sefydlu cyfrif tai personol y gallwch ei ddefnyddio ar adeg sy'n addas i chi, o'ch ffôn clyfar, eich tabled neu'ch cyfrifiadur personol. Mae'n darparu mynediad hawdd er mwyn i chi weld balans eich rhent a'ch pryniadau, talu'ch rhent, cadw cofnod o unrhyw atgyweiriadau yr adroddwyd amdanynt, newid eich manylion personol ac anfon negeseuon atom neu adrodd am faterion rheoli tai.

Grŵp Adborth Tŷ Agored

Cyfarfu Grŵp Adborth Tŷ Agored yn ddiweddar i



drafod y rhifyn mwyaf diweddar o gylchgrawn Tŷ Agored gan gynnwys y dyluniad, y cynllun, yr ysgrifau nodwedd mwyaf diddorol a lleiaf diddorol a'u barn am y cylchgrawn yn gyffredinol. Daeth llawer o bobl i'r cyfarfod a rhoddwyd adborth cadarnhaol am y cylchgrawn.

Os hoffech chi ymuno â'r Grŵp Adborth Tŷ Agored, cysylltwch ag Alison Winter, Swyddog Cyfranogiad.

Facebook

Mae gan Dai Cyngor Abertawe ei grŵp Facebook ei hun, y gall unrhyw denant neu lesddeiliad y cyngor ymuno ag e'. Rydym yn postio gwybodaeth ddefnyddiol, yn eich cyngori ar ddiweddariadau a newidiadau i wasanaethau tai ac wrth gwrs yn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am bynciau yr hoffech eu cynnwys, cysylltwch â mi.

Os hoffech ymuno, chwiliwch am 'Tai Cyngor Abertawe' ar Facebook, gwnewch gais i ymuno a gofynnir y cwestiynau canlynol i chi. 1. Enw'r tenant arweiniol 2. Cyfeiriad 3. Dewis iaith.

Dim ond os atebwch chi'r cwestiynau hyn y caiff eich cais ei gymeradwyo.

Mynegi'ch barn

Gallwch gyfranogi cymaint neu gyn lleied ag yr hoffech, hefyd, does dim rhaid i chi ddod i gyfarfodydd a gallwch fynegi'ch barn o gysur eich cartref.

Os hoffech wybod mwy am unrhyw un o'r grwpiau neu'r porth, ffoniwch fi ar ☎ **01792 635043** neu ☎ **07775221453**, neu cysylltwch â fi drwy Messenger neu e-bostiwch fi yn ✉ **alison.winter@abertawe.gov.uk**

Gwasanaethau cefnogi

Hawliad Budd-dal Tai

I gyflwyno cais newydd am Fudd-dal Tai, ffoniwch y
Tim Hawlio ar ☎ 635353 neu e-bostiwch
✉ caisnewyddamfudd-daliadau@abertawe.gov.uk

Er mwyn trafod eich hawliad â Swyddog Budd-dal Tai,
ffoniwch ☎ **635353** neu e-bostiwch
✉ budd-daliadau@abertawe.gov.uk

Tim Rhenti

Os ydych chi'n cael anhawster wrth dalu'ch rhent, cysylltwch
â'r **Tim Rhenti** drwy ffonio ☎ **01792 534064** neu
07920 560243 ✉ rhenti@abertawe.gov.uk

UCT - Uned Cefnogi Tenantiaid

Dinas a Sir Abertawe sy'n rheoli'r **UCT**, a all gynnig gweithiwr
cefnogi i helpu gyda phroblemau ariannol neu unrhyw faterion
cefnogi eraill gyda'ch tenantiaeth.
Ffoniwch eich Swyddog Rhent neu'r **Uned Cefnogi Tenantiaid**
ar ☎ **774360** os teimlwch fod angen cefnogaeth arnoch

Opsiynau Tai

Cyngor ar arian a dyledion - hefyd, rhoddir cyngor am
ddim os yw'ch tenantiaeth mewn perygl.
☎ **01792 533100** ✉ opsiynautai@abertawe.gov.uk



Cyngor ar Bopeth Abertawe

Ail Lawr, City Gates, 50a Wind Street, Abertawe SA1 1EE
☎ **0300 3309 082** 🌐 www.adviceguide.org.uk/wales.htm



Os ydych wedi'ch bygwth â digartrefedd, cynigir cyngor
a chymorth i chi am ddim ☎ **01792 469400**
Llinell Gymorth Cyngor ar Dai ☎ **08000 495 495**
🌐 www.sheltercymru.org.uk/?lang=cy



Cyngor ar ddyledion gan Stepchange ☎ **0800 138 1111**
🌐 www.stepchange.org



I gael cyngor ar sut i gael gwaith
☎ **01792 637112** 🌐 www.workways.wales
✉ workways+@swansea.gov.uk

Gwasanaeth Torri Gwair



Gwasanaeth torri gwair am ddim i denantiaid anabl neu oedranus y cyngor y mae angen help arnynt i gynnal eu gerddi.

Beth yw'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig?

- ✓ Gwasanaethau torri gwair

Beth i'w ddisgwyl?

- ✓ Byddwn yn torri lawntiau a ac yn clirio gordyfiant.
- ✓ Byddwn yn tocio perthi sydd wedi tyfu'n wyllt yn ystod misoedd y gaeaf oni bai eu bod yn rhwystro mynedfeydd.
- ✓ Byddwn yn mynd â'r holl doriadau gyda ni.
- ✓ Byddwn yn gadael eich gardd mewn cyflwr da i chi ei mwynhau yn y tywydd braf.

Cymhwysedd

I fod yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth, rhaid i'r aelwyd fodloni un o'r meini prawf canlynol:-

- Tenantiaid sy'n 70 oed ac yn hŷn heb deulu yn yr aelwyd neu heb deulu'n byw gerllaw a allai gynorthwyo.
- Tenantiaid ag anabledd sy'n golygu na allant dorri eu glaswellt eu hunain ac nad oes ganddynt unrhyw deulu a allai helpu sy'n byw yn lleol.

DS: Disgwylir i denantiaid ddangos tystiolaeth o'u hanabledd e.e. llythyr oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Blaenoriaeth

- ✗ Does dim blaenoriaeth ar gyfer aelodau o'r cynllun hwn - bydd y tîm yn torri gwair yn ôl ardal, a bydd hyn yn amodol ar y tywydd.

Pa wasanaethau

DYDYN NI DDIM

yn eu cynnig?

- ✗ Tirlunio
- ✗ Tynnu chwyn
- ✗ Cael gwared ar sbwriel
- ✗ Glanhau ar ôl anifeiliaid anwes
- ✗ Plannu
- ✗ Glanhau gyda pheiriant golchi dan bwysedd

Cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Ardal i wirio a ydych yn gymwys. Ar gyfer pob ymholiad arall, ffoniwch 01792 513948



Ydych chi wedi cael eich synhwyrdd carbon monocsid

AM DDIM

**Galwch heibio'ch Swyddfa Dai Ardal
leol a chasglwch eich un chi heddiw!**



Rydym yn ymrwymedig i ddarparu synhwyrddion carbon monocsid yn ein holl eiddo ac mae synhwyrddion gwifredig wedi'u gosod yn nifer o'n cartref eisoes. **OND** er mwyn gosod larymau carbon monocsid yn ein holl eiddo cyn gynted â phosib, mae angen eich cymorth chi! Mae stoc o larymau yn ein holl Swyddfeydd Ardal, felly os nad oes gennych larwm carbon monocsid yn eich cartref eto, galwch heibio'ch swyddfa agosaf i ofyn i un o'n Hymgynghorwyr Tai am larwm. Gallai'r larymau achub bywyd ac maent **AM DDIM**, yn fodern ac yn fach, mae'r batri yn para 10 mlynedd a gellir ei osod yn unrhyw le yn yr un ystafell â'ch peiriant nwy. Dewch i'n gweld ni - **NEU** os ydych chi'n cael trafferth wrth gyrraedd eich swyddfa leol, ffoniwch i ofyn am gymorth.

Allwn ni eich helpu?

Ydych chi'n cael trafferth darllen print mân neu efallai eich bod yn teimlo eich bod yn cael eich llethu gan yr holl wybodaeth rydych yn ei gweld ar lythyrau, taflenni a ffurflenni cais?

Os felly, gallwn ddarparu gwybodaeth i chi mewn ffyrdd eraill. Gallwn anfon gwybodaeth atoch mewn print bras, Braille neu ar gryno ddisg neu dâp. Os ydych yn siaradwr Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, gallwn hefyd ddarparu gwybodaeth i chi yn Gymraeg.

I dderbyn gwybodaeth mewn fformat arall, rhowch wybod i'r staff yn eich Swyddfa Ranbarthol neu cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid drwy ffonio ☎ **01792 635045** neu e-bostio ✉ **tai@abertawe.gov.uk**.

Os oes angen help arnoch i lenwi ffurflen rydym wedi'i rhoi i chi, gofynnwch i'r staff yn eich Swyddfa Ranbarthol am gymorth.

Mae'n bwysig i ni eich bod yn gallu cael mynediad at yr holl wasanaethau sydd ar gael i chi gan y Gwasanaeth Tai; felly os hoffech i ni wneud pethau'n wahanol i chi, gofynnwch a byddwn yn hapus i wneud hynny.